



GWEDDÏO A PHARATOI AR GYFER ETHOLIAD 2015

Neges gan Esgobion yr Eglwys yng Nghymru - Gwnewch eich marc ar 7 Mai

Mae Cristnogion eisiau gwneud y byd yn lle gwell. Dyna pam fod eglwysi bob amser wedi ymwneud â gofalu am y rhai mwyaf anghenus, yn y wlad hon a hefyd dramor. Oherwydd i broffwydi'r Hen Destament ac Iesu ei hunan alw am newyddion da a chyfiawnder cymdeithasol i bawb, mae eglwysi'n cymryd rhan, bob dydd, mewn rhedeg banciau bwyd, undebau credyd, canolfannau teulu, llochesi i'r digartref a phrosiectau i gefnogi rhieni ifanc.

Mae bod eisiau gwneud y byd yn lle gwell hefyd yn golygu bod â chonsyrn am sut y caiff ein cymdeithas ei threfnu. Drwy bleidleisio a bod yn weithgar mewn gwleidyddiaeth rydym yn rhoi ein grym ar waith i newid cymdeithas. Nid yw ein hawl i bleidleisio yn rhywbeth y dylem ei gymryd yn ganiataol. Bu'n rhaid brwydro'n galed am yr hawl hwnnw, ac mae miliynau o bobl yn y byd yn dal i fod hebdo.

Paratoi

- Canfyddwch pwy sy'n addo gwella nid dim ond eich bywyd chi ond hefyd fywyd y bobl mwyaf anghenus.
- Ceisiwch ganfod pwy y credwch a all weithio orau dros yr hyn sy'n dda a theg.
- Os gallwch, cysylltwch gydag ymgeiswyr neu aelodau'r pleidiau. Siaradwch gyda nhw pan maent yn galw. Darllenwch eu pamffledi a manifestos, a threfnu neu fynychu cyfarfodydd hysting a gaiff eu rhedeg gan ein heglwysi neu grwpiau eraill.
- Peidiwch â chael eich dadrithio. Cofiwch, er bod rhai gwleidyddion wedi rhoi enw drwg i wleidyddiaeth drwy gamddefnyddio eu safleoedd a'u breintiau, mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n sefyll etholiad yn ddiffuant wrth fod eisiau gwneud gwahaniaeth er gwell.

Credwn fod etholiad yn gyfle i wneud marc, nid dim ond ar bapur pleidleisio ond un all lunio ein dyfodol. Mae'n gyfle rhy bwysig i'w esgeuluso sut bynnag y dewiswch bleidleisio yn y pen draw. **Peidiwch dim ond eistedd yno – ewch allan i bleidleisio**

Adnoddau fideo cyffrous gan Fyddin yr Iachawdwriaeth



Mae Undeb Materion Cyhoeddus Byddin yr Iachawdwriaeth wedi gweithio gyda'u tîm fideo mewnol i lunio cyfres o ffilmiau byrion yn tynnu sylw at waith y Fyddin. Bob wythnos am y chwech wythnos nesaf fe fydd dwy ffilm newydd yn cael eu cyhoeddi: bydd y fideo cyntaf yn cyflwyno hanes unigolyn a dderbyniodd gymorth gan Fyddin yr Iachawdwriaeth (cyhoeddir ar ddydd Gwener); bydd yr ail yn dangos cyfweiliad â gwleidyddion o'r prif bleidiau gan un o ddefnyddwyr gwasanaethau'r Fyddin neu un o'r staff (cyhoeddir ar y dydd Llun dilynol). Nod y ffilmiau yw ysbrydoli pleidleiswyr i ofyn y cwestiynau sydd o bwys iddyn nhw yn yr etholiad. Gellir defnyddio'r ffilmiau gyda'r Pecyn Adnoddau Addoli, a gyhoeddir ar yr un pryd â'r ffilm gyntaf. Er mwyn gweld y ffilmiau, dilynwch y cyswllt canlynol:

<http://www.salvationarmy.org.uk/2015-general-election-asking-questions-matter>

Os ydych am ddefnyddio'r ffilmiau, cofiwch gydnabod Byddin yr Iachawdwriaeth.



Fe gyhoeddwyd adnodd diddorol arall o'r enw **Love your neighbour: Think, Pray, Vote** gan Dîm Materion Cyhoeddus Undeb Bedyddwyr Prydain, yr Eglwys Fethodistaidd, yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig ac Eglwys yr Alban. Mae'n

gwahodd Cristnogion – ac, yn wir, pob dinesydd cyfrifol – i edrych y tu hwnt i'w budd eu hunain a cheisio agenda gwleidyddol sy'n ceisio lles pawb, yn enwedig y sawl sy'n cael eu heithrio o gymdeithas a'u condemnio gan y cyhoedd – yr union bobl y mae Iesu yn ein gwahodd i'w hystyried yn gymdogion. Mae'r pecyn o ffilmiau byrion, myfyrdodau Beiblaidd a gweddiâu wedi'i gynllunio'n bennaf i'w ddefnyddio mewn oedfa, ond fe allai hefyd fod yn sail i seiat. Bob wythnos fe gyflwynir thema ganolog wahanol, yn cysylltu negeseuon sylfaenol Feiblaidd â naratif gwleidyddol yr ymgyrch etholiadol – gwirionedd, cyfiawnder, heddwch a lles. Mae'r rhain yn gorwedd wrth galon ein gweledigaeth o deyrnas Dduw, ac felly wrth galon cymdeithas ddaionus.

Trwy ddefnyddio cerdyn post, fe wahoddir aelodau'r gynulleidfa i fyfyrion ar y themâu a chyflwyno ambell gwstiwn allweddol i unrhyw drafodaeth y maent yn ei chynnal, boed gyda chanfasiwr ar riniog y drws, wrth ffonio sioe radio, neu beth bynnag. Ar yr un pryd, bydd yr enwadau yn gweithio ar draws y DU i gyflwyno'r themâu hyn i'r trafodaethau yn y cyfryngau. Trwy gyd-weithio, gwelir cyfle i ddylanwadu ar brif themâu y Deyrnas Unedig yn yr wythnosau nesaf. [Gellir archebu'r pecyn yma](#). I'r sawl sydd am archwilio polisïau yn fwy manwl o safbwynt Cristnogol, mae [JPIT wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau briffio](#).

TRAFODAETHAU ETHOLIADOL

Fe fydd pob darlledwr yn naturiol yn rhoi cryn sylw i'r etholiad. Fe gysylltwyd â Cytûn gan ITV Cymru, a fydd yn cynnal dadl etholiadol ar Ebrill 22ain, o **18:30 tan 21:30**, yng **Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru yng Nghaerdydd**. Gyda chynulleidfa o 200, fe'i darlledir yn fyw, gyda chynrychiolydd o bob un o'r chwe phrif blaid wleidyddol – y Ceidwadwyr, Llafur, y Democratiaid Rhyddfrydol, y Gwyrddion, Plaid Cymru a UKIP. Croesewir ceisiadau i ymuno â'r gynulleidfa erbyn **Dydd Gwener 10fed Ebrill**. Danfonwch broffil byr o bob un sydd am fynychu, gan gynnwys sut y bwriadant bleidleisio ym mis Mai ac a oes gan unrhyw un anghenion mynediad, at rosie.mercer@itv.com neu ffoniwch ar 07880 475 645

Mae ITV hefyd yn cynhyrchu **Voter voice**. Mae'r rhain yn bytiau wedi eu recordio ledled Cymru, yn siarad â phobl am yr hyn sydd o bwys iddyn nhw. Os gwyddoch chi am grŵp amrywiol, siaradus o bobl a fyddai'n dymuno bod yn rhan o'r gyfres, yna cysylltwch â carl.edwards@itv.com.

Mae nifer o grwpiau eglwysig yn trefnu **cyfarfodydd cyhoeddus gydag ymgeiswyr eu hetholaeth**. Gallwch weld y manylion ar Twitter yn **#ChurchHustingsWales** neu ar wefan etholiadol yr eglwysig <http://ctbielections.org.uk/> a gwefan y Gynghrair Efengylaidd <http://election2015.eauk.org/> Fe gawsom wybod am lawer o gyfarfodydd yn ne-ddwyrain Cymru ond prin yw'r wybodaeth am y gorllewin a'r gogledd. **A wnewch chi drydar neu cysylltu â ni gyda'r manylion os gwelwch yn dda?**

Mae'r gwefannau uchod hefyd yn cynnwys llawer mwy o adnoddau a chysylltiadau â gwefannau eraill sy'n cynnwys adnoddau etholiadol.

Y SGWRS FAWR AM ADRODDIAD DONALDSON

Mae cyfnod cyntaf y **Sgwrs Fawr** am adroddiad yr Athro Donaldson am y cwricwlwm cenedlaethol mewn ysgolion yn para tan **8 Mai** a bydd yn gweithredu fel ymgynghoriad ar yr hyn y mae'r Adolygiad wedi'i argymhell.

Fel y mae Adolygiad Donaldson yn ei gydnabod, bydd rhoi unrhyw gwricwlwm newydd ar waith yn llwyddiannus yn dibynnu, yn y pen draw, ar beth sy'n digwydd yn yr ystafell ddosbarth. Cyfeiriodd yr Athro Donaldson ei hun sawl tro at bwysigrwydd adroddiad yr Athro John Furlong, [Addysgu Athrawon Yfory](#), sydd bellach wedi'i gyhoeddi. Nododd Adolygiad Donaldson y gyd-ddibyniaeth sylfaenol rhwng dibenion y cwricwlwm ac addysgeg (yr astudiaeth a'r arfer o'r ffordd orau o addysgu). Yn ei adroddiad, mae'r Athro Furlong yn disgrifio bod hyfforddiant cychwynnol athrawon wedi cyrraedd 'trobwynt tyngedfennol' ac mae'n argymhell bod angen ffordd sy'n fwy 'eang' er mwyn i athrawon allu darparu cynllun Donaldson.

Mae'r Athro Donaldson ei hun yn adrodd mai un o'r materion a oedd yn codi dro ar ôl tro gyda thîm yr adolygiad yn ystod y broses o gasglu tystiolaeth oedd p'un a oedd y dulliau ar gyfer gweithredu'r diwygiadau blaenorol wedi rhoi digon o ystyriaeth i p'un a oedd gan ysgolion ac athrawon y capasiti i'w cyflawni. Mae'n cydnabod bod ei gynigion yn radical ac yn sylfaenol, ac yn arwain at newid gwirioneddol a pharhaol. Mae'n awgrymu y bydd y newidiadau'n cymryd amser ac y dylid eu cyflwyno'n raddol, gan bwysleisio ei bod yn hanfodol datblygu sylfaen gadarn o gefnogaeth ar gyfer pob rhanddeiliad a phlaid wleidyddol.

Mae cymunedau ffydd Cymru eisoes wedi dechrau ymateb i'r adroddiad. Mae Rheinallt Thomas, ymgynghorydd addysg Cyngor yr Eglwysi Rhyddion, wedi croesawu'r adroddiad, gan ddweud, "Mae llawer o'r Adroddiad mor bositif o'n safbwynt ni. Byddai Addysg Grefyddol yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 mlwydd oed (o fewn i Ddyniaethau), ac nid oes unrhyw argymhelliad i newid rôl y Cynghorau Ymgynghorol Statudol ar Addysg Grefyddol (CYSAGau) sirol na'r hawl i rieni dynnu eu plant o wersi AG. Mae elfennau eraill o'r Adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd addysg grefyddol ac addysgu moesegol.

"Agwedd bositif arall," meddai, "ydi ei fod yn argymhell 'cryfhau' lle'r iaith Gymraeg yn y cwricwlwm, gyda dysgu'r Gymraeg fel ail iaith yn dechrau'n gynharach, gyda thrydedd iaith felly yn dilyn yn gynt. Byddai'r pwyslais ar sgiliau llafar a chyfathrebu bob dydd er mwyn hybu perthnasedd y Gymraeg i ddisgyblion. Byddai cwricwlwm wedi ei ad-drefnu yn y modd a awgrymir yn fwy hyblyg yn nhermau addysgu a thechnegau asesu ac o safbwynt trefnu amserlen ysgol. Bydd yn cynnig mwy o ryddid proffesiynol i athrawon o fewn fframwaith o atebolrwydd parhaus."

Ond mae rhai eglwysi wedi mynegi gofid am absenoldeb yr elfen ysbrydol yn nisgrifiad Donaldson o beth yw bod yn ddynol, ac nad yw'n sôn am bwysigrwydd ffurfiant ysbrydol pob plentyn o fewn y cwricwlwm.

Mae'r Adroddiad ei hun, arolwg y gallwch ei lenwi a holiadur un dudalen ar gael ar y wefan <http://gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/curriculuminwales/curriculum-for-wales/?lang=cy>

Gallwch yrru eich sylwadau drwy eu e bostio i CurriculumReview@wales.gsi.gov.uk neu drwy'r post: Adolygiad Y Cwricwlwm, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays 2, CAERDYDD CF10 3NQ.

Disgwylir i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, gyflwyno ei ymateb i'r adroddiad yn dilyn diwedd cyfnod cyntaf y Sgwrs Fawr ar 8fed Mai, a chyn gwyliau'r haf.

BONDIAU LLYWODRAETH CYMRU

Roedd cynigion Dydd Gŵyl Ddewi ar gyfer datganoli pellach i Gymru, a amlinellwyd ym [Mwletin Polisi Mawrth 2015](#), yn cynnwys cyfeiriad at ganiatáu i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bondiau er mwyn benthycu arian at wariant cyfalaf. Mewn [dogfennau ryddhawyd gyda Chyllideb y DU](#) ar 18fed Mawrth, cyhoeddwyd na fydd y grym hwn ar gael tan Ebrill 2018. Bydd yr uchafswm benthycu ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn aros yn £125 miliwn y flwyddyn o fewn uchafswm cyfan o £500 miliwn. Mae llywodraeth y DU yn dweud y bydd datganoli pwerau cyhoeddi bondiau yn ehangu'r ffynonellau ariannol fydd ar gael ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf mewn cynlluniau cludiant sylweddol, ysbityau, ysgolion ac amddiffynfeydd yn erbyn llyfogydd. Bydd Llywodraeth Cymru yn llwyr gyfrifol am gwrdd â'i dyledion ac ni fydd Llywodraeth y DU yn gwarantu unrhyw fondiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru. Fe fyddai angen caniatâd pellach gan Drysorlys EM i Lywodraeth Cymru gyhoeddi bondiau mewn unrhyw arian ar wahân i arian Prydeinig.

CYFREITHIAU NEWYDD I GYMRU

Yn ystod mis Mawrth, fe basiodd y Cynulliad Cenedlaethol ddwy ddeddf newydd bwysig.

- Mae'r [Bil Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\)](#) yn gosod dyletswyddau ar Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a byrddau iechyd i lunio strategaethau i wrthsefyll trais a cham-drin domestig a thrais rhywiol, a phenodir Cynghorydd Cenedlaethol i gynorthwyo a monitro'r broses hon.
- Mae [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#) yn cyflwyno dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried lles cenedlaethau'r dyfodol wrth wneud eu penderfyniadau. Mae'n sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau llesiant lleol (un ar gyfer pob awdurdod lleol) er mwyn gwireddu'r amcan hon, ac fe benodir Comisiynydd i gynorthwyo a monitro'r gwaith.

Mae'r ddau Fil nawr yn y cyfnod o hysbysiad, pan fo gan swyddogion cyfreithiol y DU gyfle i wrthwynebu os credant eu bod yn groes i bwerau'r Cynulliad. Os nad oes gwrthwynebiad, fe geir Cydsyniad Brenhinol i'r ddau fesur yn ystod mis Ebrill.

Fe fu'r ddau fesur yn destun cryn lobiog gan y trydydd sector, ac ar un adeg yn achos y naill fil a'r llall roedd yn ymddangos na fyddai'n cael ei dderbyn mewn ffurf a fyddai'n cyflawni unrhyw beth. Mae'r Cynulliad a'r sector o hyd yn dysgu sut orau i ddefnyddio mewn ffordd adeiladol y pwerau deddfu sydd gan y Cynulliad a'r dylanwad sydd gan fudiadau allanol ar y Llywodraeth a'r Aelodau.

OXFAM YN LANSIO ADRODDIAD TOESEN CYMRU

Mae Oxfam wedi cyhoeddi adroddiad [Toesen Cymru](#). Mae'r adroddiad yn darparu fframwaith ar gyfer cynaladwyedd amgylcheddol a chyfiawnder cymdeithasol, yn cwrdd â'r ddau her o gael safon byw dderbyniol i bawb tra'n byw o fewn terfynau'r amgylchedd. Ar lefel genedlaethol mae model Toesen Cymru yn awgrymu meysydd bywyd sy'n ffurfio llawr cymdeithasol na ddylai neb yng Nghymru syrthio oddi tano, ac yn dechrau'r broses o benderfynu pa ffiniau amgylcheddol allai fod yn ddefnyddiol i'w cynnwys mewn dadansoddiad Cymreig. Mae'n darparu darlun o statws Cymru trwy asesu ei sefyllfa bresennol yn erbyn y dangosyddion a'r meysydd a awgrymir. Bydd yr adroddiad yn hynod berthnasol i weithredu Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (gweler uchod).

GWYBODAETH AM Y CYNULLIAD A LLYWODRAETH CYMRU

Gallwch ddarllen ein canllaw am sut i gyrchu gwybodaeth am weithrediadau'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru ym [Mwletin Polisi fis Ionawr](#) ar wefan Cytûn. Cewch fynediad i gynnyrch Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y wefan <http://pigion.wordpress.com> Cyhoeddir Bwletin Polisi Mai 2015 yn fuan ar ôl yr Etholiad Cyffredinol.

PARTNERIAETH LLYWODRAETH CYMRU Â'R TRYDYDD SECTOR

Mae Cymru yn unigryw yn y byd gorllewinol, gan fod ei llywodraeth dan reidrwydd cyfreithiol i ymgynghori â'r 'Trydydd sector' – mudiadau gwirfoddol a chymunedol o bob math, gan gynnwys mudiadau crefyddol. Ers i'r ddyletswydd hon gael ei chynnwys yn Neddff Cymru 2006, fe ddatblygwyd [Cynllun y Trydydd Sector](#), wedi'i weithredu trwy [Gyngor Partneriaeth y Trydydd Sector](#). Mae'r Cyngor yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn, wedi'i gadeirio gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Gyllid a Busnes y Llywodraeth, i drafod materion sy'n effeithio ar y trydydd sector ar draws adrannau'r llywodraeth. Yn ychwanegol at hyn, mae pob gweinidog adrannol yn y llywodraeth yn cyfarfod dwywaith y flwyddyn â'r sector i drafod materion adrannol penodol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwerthfawr ar gyfer trafodaeth ffurfiol, cyflwyno papurau am bynciau penodol, a thynnu sylw at faterion allweddol. Maen nhw'n rhoi'r cyfle i'r llywodraeth brofi barn a thynnu sylw at faterion y bwriadant ymgynghori yn eu cylch. Gallant agor cyfleoedd i arwain at drafodaethau mwy anffurfiol gyda gweinidogion a swyddogion i drafod pynciau yn fwy manwl.

Amcangyfrifir bod 33,000 o fudiadau trydydd sector yng Nghymru. Maent yn amrywio o elusennau sylweddol megis Tenovus, ac adrannau Cymreig mudiadau llawer mwy megis Cymorth Cristnogol, i bwyllgorau neuaddau cymunedol a mudiadau lleol bychain. Er ceisio sicrhau cynrychiolaeth deg o sector sydd mor amrywiol, fe drefnir y mudiadau mewn 25 rhwydwaith, pob un yn ymwneud â'i faes, megis lles anifeiliaid; anabled; pobl hŷn; yr iaith Gymraeg; ac yn y blaen. Mae crefydd yn un o'r rhwydweithiau hyn. Mae [Cyngor Rhyng-ffydd Cymru](#) yn trefnu cynrychiolaeth o'r sector crefyddol ymhob un o'r meysydd pwnc. Y prif gynrychiolydd yw'r Parch. Gethin Rhys – manylion cyswllt ar dudalen gefn y Bwletin hwn. Mae'r Cyngor wedi ethol dau eilydd i'w gynorthwyo, sef Julie Jones o Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf, a Nor'dzin Parmo o Gyngor Bwdhaidd Cymru. Byddai Gethin yn croesawu clywed gan unrhyw un fyddai'n dymuno cynorthwyo yn y rôl hon mewn maes polisi penodol. Byddai rhaid i gynrychiolwyr posibl fod yn barod i gynrychioli'r sector *cyfan* i'r llywodraeth, ac nid dim ond eu safbwynt neu eu crefydd eu hunain.

Gall Gethin hefyd gynnig cymorth i grwpiau crefyddol sydd am fynegi eu safbwynt i Lywodraeth Cymru. Nid oes raid i'r rhain gael eu sianelu drwy'r Partneriaeth – yn wir, os ydynt yn ofid ar ran un grŵp penodol neu yn fater unigol nid dyna'r ffordd gywir o wneud. Cysylltwch â Gethin yn y lle cyntaf am gyngor sut orau i fynd ati.

GWIRFODDOLWR Y FLWYDDYN



Mae dros filiwn o bobl yng Nghymru yn helpu eu cymunedau a'i gilydd mewn pob math o ffyrdd nodedig. Ac ers 2004 mae Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn Cymru wedi bod yn tynnu sylw at y bobl arbennig hyn. Os gwydddech chi am unigolyn neu grŵp ysbrydoledig sydd wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn eu hardal neu ym mywydau pobl eraill beth am gymryd y cyfle hwn i'w henwebu ar gyfer **Gwobrau Gwirfoddolwr y Flwyddyn**

Cymru 2015 er mwyn iddynt gael cydnabyddiaeth am eu gwaith ardderchog.

Mae mwy o wybodaeth a ffurflenni enwebu ar gael ar:

<http://www.wcva.org.uk/what-we-do/celebrating-the-sector/wales-volunteer-of-the-year-awards?seq.lang=cy-GB>

Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw 10 Ebrill 2015

MWY O ARIAN I DAI CYNGOR YNG NGHYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu cytundeb gyda Thrysorlys y Deyrnas Unedig fydd yn galluogi mwy o fuddsoddi yn nhai cyngor Cymru. Ar 2 Ebrill, bydd yr un ar ddeg awdurdod lleol yng Nghymru sydd wedi cadw eu stoc o dai cymdeithasol yn gadael system Cymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) Llywodraeth y DU ac yn dechrau ariannu'r system eu hunain.

Bydd Cynghorau'n cael mwy o bwerau dros eu stoc dai a bydd hyn yn eu galluogi i gadw'r holl arian rhent a gânt gan eu tenantiaid. Bydd y Cynghorau'n gallu rheoli eu hasedau tai a thros y 30 mlynedd nesaf, rhagwelir y bydd y rhent yn creu tua £18 biliwn o incwm iddyn nhw. Yna, byddan nhw'n defnyddio'r arian hwn yn eu hardaloedd lleol i wella'r tai presennol ac adeiladu cannoedd o dai cyngor newydd.

Mae'r penderfyniad i adael system HRAS yn dilyn cyhoeddiad diweddar Llywodraeth Cymru o'i bwriad i adael y cynllun Hawl i Brynu, cynllun sy'n galluogi tenantiaid tai cymdeithasol cymwys i gael gostyngiad o hyd at £16,000 wrth brynu eu cartref. Mae'r polisi wedi arwain at werthu 138,423 o dai cyngor Cymru ers 1981 – gostyngiad o 45% yn nifer y tai cyngor sydd ar gael o gymharu â'r cyfnod pan gyhoeddwyd y polisi gyntaf.

DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL

Mae'r ymgynghori yn parhau tan **28ain Ebrill** am Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru am Lywodraeth Leol yng Nghymru, [Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni](#). Mae'r papur yn gwneud argymhellion am wella natur gynrychioliadol awdurdodau lleol a'r rhaniad cyfrifoldeb rhwng y cynghorwyr a'r swyddogion; gwella effeithlonrwydd gweinyddol yr awdurdodau; a gwella eu perthynas gyda'u cymunedau. Ymhlith yr argymhellion mae sefydlu Byrddau Ardal, yn cynnwys nid yn unig aelodau etholedig yr ardal ond hefyd cynrychiolwyr y gwasanaethau cyhoeddus allweddol, cynghorau cymuned, cynrychiolwyr cymunedol a'r sector gwirfoddol.

Wrth ymateb hyd yma, mae nifer o'r gwrthbleidiau yn y Cynulliad a mudiadau eraill wedi mynegi gofid am nifer y Byrddau a sefydlir gan ddeddfwriaeth ar hyn o bryd – gan gynnwys y Byrddau Gwasanaeth Lleol (gweler tud. 3 y Bwletin hwn) a'r Byrddau Cynllunio Strategol a sefydlir gan [Ffi Cynllunio \(Cymru\)](#), sydd ar ei ffordd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd. Mae amlhau'r cyrff hyn a'r pwysau ar fudiadau eraill i lenwi lleoedd arnynt yn ddau ofid a fynegir.

Fe gyhoeddir ym mis Mehefin ail Bapur Gwyn am Lywodraeth Leol, yn cynnwys map o ffiniau arfaethedig newydd nifer llai o awdurdodau, a bydd cyfnod ymgynghori pellach yn cynnwys fis Tachwedd. Cyflwynir deddfwriaeth ar ôl etholiad Cynulliad Mai 2016.

CYSYLLTU Â SWYDDOG POLISI CYTÛN



Er mwyn trafod unrhyw fater yn y Bwletin hwn, neu ceisio cymorth gan y Swyddog Polisi, dyma'r manylion cyswllt:

Parch./Revd Gethin Rhys - Swyddog Polisi/Policy Officer

Cytûn - Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales

58 Richmond Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 3AT

Tel: 029 2046 4378 Mudol/mobile: 07889 858062

E-bost/E-mail: gethin@cytun.org.uk  [@CytunNew](https://twitter.com/CytunNew)



Hapus i gyfathrebu yn Gymraeg ac yn Saesneg. Happy to communicate in Welsh and English

Mae Cytûn yn gwmni cofrestredig yng Nghymru a Lloegr | Rhif: 05853982 | Enw cofrestredig:

"Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru/Churches Together in Wales Limited" |

Mae Cytûn yn elusen gofrestrdedig | Rhif: 1117071 |

Dyddiad cyhoeddi: 1af Ebrill 2015.